CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 24ain HYDREF 2017.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr W Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Ian Owen, Mr Cynrig Jones, Mr Einion Parry Williams, Mr John Pritchard a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

YMDDIHEURIAD:
Cyng Mr Mike Jones & Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

1 CROESO, DIOLCHIADAU & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod llawn cyntaf gan y Cadeirydd.

1.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol** – nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb.

2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.
Cafwyd adroddiad byr ar lafar gan y Cynghorydd Sirol, Mr Dafydd Roberts.

2.1 Trafodaeth Cyllideb 2018-2019 yn parhau.

2.2 Canran Ailgylchu Ynys Mon yn uwch wrth cymharu gyda Awdurdodau eraill.

2.3 Cwynion Baw Ci yn parhau ond nifer o bobol yn cael ei dal yn eitha siomedig.

2.4 Universal Credit – Adran Tai yn cynorthwyo sawl un sydd yn cael ei effeithio.

Diolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad.

3 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (26ain Medi 2017).

3.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 26ain Medi 2017 yn gywir ar ol cywiro (DH/EPW).

3.1.1 Cofnod 4.1. **Peiriant Diffribiliwr** – person allanol ac nid Llinos Davies er mwyn cael sesiwn hyfforddiant byr at sut i ddefnyddio'r uned/peiriant diffribiliwr.
3.1.2 Cofnod 5.6 **Cloddiau Gaerwen Uchaf** – nodwyd fod y cyfarfod wedi cytuno i'r pris er mwyn cwblhau'r gwaith.
3.1.3 Cofnod 12.1 'Canolfan Esceifiog' ac nid 'Canolfan Hamdden'.

Arwyddo.....

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

4.1 Pwyllgor Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned – nodwyd fod y cyfarfod nesaf y Fforwm wedi ei drefnu ar Nos Fawrth (21/11/2017) – penderfynwyd ethol Cyng Ian Owen, Cyng Einion P Williams a Cyng Cynrig Jones i gynrychioli'r Cyngor ac i dderbyn adroddiad yn nol ganddynt yn y cyfarfod nesaf

5 MATERION CAEAU CHWARAE.

5.1 Gwaith Cynnal a Chadw – Gofeb, Gardd Mileniwm & Cae Chwarae Gaerwen Uchaf – penderfynwyd derbyn pris Mr B Sinnott (£940.00) ond fydd rhaid disgwyl tan y Gwanwyn cyn cychwyn ar y gwaith.

5.2 Lles & Polisi Yswiriant Caeau Chwarae Cae Mawr & Gaerwen Uchaf.

5.2.1 Nodwyd fod y Cymdeithas Hamdden yn gyfrifol am lles y caeau chwarae ar hyn o bryd gyda'r Cyngor Cymuned sydd yn dod i ben yn Mis Ionawr 2022 ac disgwylir y daw llythyr ganddynt yn fuan iawn yn cadarnhau terfynnu'r lles unwaith bydd gweddill materion gweinyddu sydd angen ei wneud wedi ei gwblhau.

5.2.2 Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi trosglwyddo polisi yswiriant y Caeau Chwarae yn nol i ddwylo y Cyngor Cymdeithas (cost £171.70) ac wedi arbed swm sylweddol wrth wneud hyn.

5.2.3 Cytunwyd y dylai'r Cyngor dalu am bil y Cyngor Sir am waith cynnal a chadw Cae Chwarae Gaerwen Uchaf. Dywedodd Cyng Ian Owen fod angen gwaith peintio'r offer ac cytunwyd y dylai y Cymdeithas Hamdden talu am y gwaith o baentio'r offer ac y Cyngor Cymdeithas am dalu am y deunyddiau.

5.2.4 Nodwyd y disgwylir fod balans o £4,000 yn weddill yng nghyfrif y Cymdeithas Hamdden unwaith bydd popeth wedi ei orffen ac y bydd hyn yn cael ei drosglwyddo I cyfrif cadw y Cyngor Cymdeithas.

5.3 Cloddiau Gaerwen Uchaf – roedd Cyng Ian Owen wedi trefnu gyda Mr Dafydd Hughes i wneud y gwaith (pris £80.00) ac disgwylir anfoneb ganddo erbyn y cyfarfod nesaf.

6 MATERION LLWYBRAU.

6.1 Llwybr 16 – dywedodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda Arwel Evans o'r Cyngor Sir ac wedi cysylltu gyda Cyng John Pritchard er mwyn darganfod yr union safle sydd angen sylw gwella gwyneb ar hyd darn o'r llwybr. Gadawyd y mater yn nhwylo Cyng John Pritchard.

6.2 Costau Llwybrau Cyhoeddus – nodwyd nad oedd mwy o wariant eto eleni ac i'r Clerc wneud trefniadau o hawlio'r grant blynyddol.

Arwyddo.....

7 MATERION PRIFFYRDD.

7.1 **Parcio ger Ty Gwyn – Lon Groes** – nodwyd ymateb y Cyngor Sir yn awgrymu cysylltu gyda'r Post Brenhinol er mwyn ail-leoli'r blwch postio. Nid oedd aelodau yn hapus gyda'r ymateb a gofyn i'r Clerc anfon llythyr I Bennaeth yr Adran.

7.2 **Safle Gofeb Gaerwen** – cytunwyd pasio'r gwybodaeth ymlaen i'r Cynghorydd Sirol gan nad oedd ymateb wedi ei dderbyn.

7.3 **Stryd & Theras y Capel, Gaerwen –** yn dilyn llythyr 5/12/2016, roedd y Clerc wedi anfon llythyr i'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt rhannu gwybodaeth pryderon gor-yrru a cyfyngu pwysau ar hyd y Teras gan ei fod heb dderbyn unrhyw ymgynghoriad a bwriedir. Penderfynwyd ychwanegu hwn at cofnod 7.2 uchod gan nad oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw ymateb.

7.4 **Cyflwr Palmant Gyferbyn Mynedfa Stermat –** nodwyd fod y gwaith wedi ei wneud.

7.5 **Siop McColls, Lon Groes –** nodwyd fod gwaith llenwi tyllau wedi ei wneud.

7.6 **Gorchymyn (Gwaharddiad Traffig Trwodd Dros Dro) (Lôn Colliar, Pentre Berw) –** nodwyd fod y gwaith heb ei orffen ac fod damwain wedi digwydd rhwng yr Ysgol ar Stad Diwydiannol.

7.7 **Allt Lon Berea –** derbyniwyd cwyn a lluniau yn cadarnhau fod angen sylw i'r gordyfaint ar ffens rhwng ar A5 a Capel Berea a gofyn i'r Clerc anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd.

7.8 **Gorchymyn (Gwahaddiad Traffig Trwodd Dros Dro) (Lōn Cefnu Du, Gaerwen) –** nodwyd y daw'r gorchymyn i rym ar 30ain Hydref 2017 a disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith ar y 4ydd Tachwedd 2017.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Llawn – Codi Sied Amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid yn:
LLEOLIAD – Berw Uchaf, Pentre Berw, Gaerwen (Rhif Cais - 33C182F).
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

9. MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

9.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Medi 2017 yn cynnwys cysoniad a datganiad y banc.

9.2 **Taliadau Mis Hydref 2017.**

Rhif Siec.	Taler		Disgrifiad	Swm
201258	Zurich Municipal	-	Yswiriant Offer Cae Chwarae	£171.70
201259	HMRC	-	PAYE Cyflog y Clerc Awst 2016 > Medi 2017	£840.00
201260	Gwynedd Office Supplies	-	Inc	£126.14
201261	Mr Mr Dafydd Hughes	-	Torri Caeau Chwarae	£175.00

Arwyddo..... Tudalen 3.

10 GOHEBIAETH.

10.1 Arolwg 2018 Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Diwygiedig.

10.2 Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Tre-Ysgawen (27/10/2017) – Ymgyrch Dim Peilonau.

11 ADRODDIADAU

11.1 **Pwyllgor Canolfan Esceifiog** – cafwyd adroddiad byr oddiwrth Cyng Ian Owen yn dilyn hyn a ddywedwyd yn Mis Medi ac fod pethau yn symud yn ei flaen gyda sustem archebu electronig ac fod Carol a Linda wedi ymgymeryd y cyfrifoldeb o edrych ar ol y Ganolfan yn dilyn salwch i'r cyn gofalwraig, Mrs Carys Davies.

11.2 Pwyllgor Cangen Un Llais Cymru Mon – cafwyd adroddiad byr oddiwrth Cyng Raymond Evans yn dweud y bydd angen penodi archwilydd mewnol newydd yn dilyn ymddeoliad Mr John Roberts.

11.3 Sul y Cofio – nodwyd fod yno gwasanaeth ger y Gofeb ar Fore Sul, 12fed Dachwedd

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 28ain DACHWEDD 2017.

12.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:10yh.